# Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol

## Yr hyn fyddwch yn ei astudio

Byddwch yn astudio Lefel 2 City & Guilds mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol. Rhai o'r pynciau a gyflwynir yw:

- Darllen a chrynhoi; tynnu pwyntiau allweddol o 2 destun gwahanol
- Paratoi ar gyfer, a chymryd rhan mewn trafodaeth grŵp ar bwnc arbennig
- Paratoi a chyflwyno cyflwyniad 4 munud
- Cynhyrchu dau wahanol fath o ddogfennau (e.e. llythyr, adroddiad, erthygl, e-bost, adolygiad.)
- Cynllunio a drafftio ysgrifennu cyn cynhyrchu'r fersiwn terfynol, gan fformatio ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a phwrpasau.
- Defnyddio gramadeg, atalnodi, a sillafu'n gywir yn gyson.

## Sut fyddwch yn astudio

Mae'r cwrs yn cynnwys 30 awr o gynnwys wedi'i gyflwyno gan diwtor, a disgwylir i chi fod yn hunan astudio am 30 awr arall. Cynhelir pob cwrs ddwywaith yn ystod y flwyddyn academaidd, un yn cychwyn ym mis Tachwedd, a'r llall ym mis Mehefin.

Cynhelir y cwrs fis Tachwedd dros 15 wythnos ac mae'n cynnwys un wers ddwy awr yr wythnos. Cynhelir y cwrs sy'n cychwyn fis Mehefin dros 2½ wythnos ac mae'n cynnwys dau ddiwrnod llawn o astudio'r wythnos.

Bydd pob gwers ac asesiad yn digwydd o bell, drwy Microsoft Teams. Fodd bynnag, yn ddelfrydol byddai'r prawf cadarnhau ar-lein yn cael ei gymryd wyneb yn wyneb ar gampws Canol y Ddinas, Coleg Caerdydd a'r Fro, lle gellir darparu cymorth technegol. Mae cwblhau'r asesiad o bell hefyd yn bosibl i'r rhai sy'n methu teithio i Gaerdydd.

## Sut fyddwch yn cael eich asesu

Bydd elfen asesiad ysgrifenedig y cymhwyster nid yn unig yn archwilio'ch gallu i wneud cyfrifiadau, ond hefyd sut ydych yn cynllunio i fynd i'r afael â phroblem, dehongli gwybodaeth a roddwyd, a chyflwyno'ch canlyniadau ac argymhellion.

Byddwch hefyd yn cwblhau ail elfen y cymhwyster, sydd yn brawf cadarnhau aml-ddewis ar-lein, sy'n cael ei amseru.

Rhaid pasio'r ddwy elfen yn llwyddiannus er mwyn cyflawni'r cymhwyster llawn.